# Mynegiant o Ddiddordeb ar gyfer Grwpiau Cynghori ar Ddatganiadau Meincnod Pwnc ar gyfer Academyddion

## Cwestiynau'r Arolwg Ar-lein

**Mae'r ddogfen hon yn darparu copi o gwestiynau'r arolwg i'ch helpu wrth baratoi eich ymateb. Dylech ddefnyddio'r arolwg ar-lein i gyflwyno eich ymateb.**

Noder bod angen cwblhau'r arolwg ar un cynnig. Unwaith y bydd yr arolwg wedi cael ei gyflwyno, ni fyddwch yn gallu newid eich atebion.

Mae QAA yn arwain datblygiad Datganiadau Meincnod Pwnc. Caiff y Datganiadau hyn eu hadolygu'n gylchol i sicrhau eu bod mor ddefnyddiol â phosibl i gymunedau'r disgyblaethau sydd dan sylw, a gallant lywio amrywiaeth o ddibenion ar draws y sector, gan gynnwys dylunio cyrsiau a darparu cefnogaeth i sicrhau safonau academaidd.

Rydym yn gwahodd mynegiadau o ddiddordeb gan gymunedau academaidd i ymuno â'r Grwpiau Cynghori ar Bynciau ar gyfer y meysydd a amlinellir isod:

- Cymraeg
- Dieteteg
- Digwyddiadau, Lletygarwch, Hamdden a Thwristiaeth
- Deunyddiau
- Parafeddygaeth
- Gwyddor Chwaraeon ac Ymarfer Corff
- Gwaith Ieuenctid a Chymunedol

**Y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno yw canol dydd, dydd Gwener 9fed Ionawr 2026**

**1) Amdanoch chi:**

| | |
|---|---|
| Teitl | |
| Enw | |
| Rôl | |
| Sefydliad | |
| Cyfeiriad e-bost | |
| Unrhyw gysylltiadau / ymaelodaethau | |

**2) Nodwch eich pwnc dewisol:**

| | |
|---|---|
| Cymraeg | |
| Dieteteg | |
| Digwyddiadau, Lletygarwch, Hamdden a Thwristiaeth | |
| Deunyddiau | |
| Parafeddygaeth | |
| Gwyddorau Chwaraeon ac Ymarfer Corff | |
| Gwaith Ieuenctid a Chymunedol | |

**3) Yn gwneud cais fel:**

| | |
|---|---|
| Academydd | |
| Corff Proffesiynol, Statudol a Rheoleiddiol (PSRB) | |
| Myfyriwr/Graddedig | |
| Cyflogwr | |
| Cynrychiolydd Arloeswyr (grwpiau arloeswyr sy'n gyfrifol am ddatblygu safonau prentisiaeth) | |
| Cymdeithas/Rhwydwaith Pwnc | |

**4) Meini prawf a ddymunir – ticiwch os oes gennych chi brofiad o ymwneud ag agendâu penodol yn y meysydd arbenigedd canlynol neu os oes gennych chi ddealltwriaeth ohonynt:**

| | |
|---|---|
| Addysg ar gyfer datblygu cynaliadwy | |
| Cydraddoldeb, amrywioldeb a chynhwysiant - gyda ffocws ar gynhwysiant yng nghyd-destun cynnwys y cwricwlwm a nodweddion myfyrwyr | |
| Hygyrchedd a gofynion myfyrwyr anabl | |
| Addysg menter a/neu entrepreneuriaeth | |
| Deallusrwydd Artiffisial Cynhyrchiol | |

**5) Datganiad ategol:**

Gofynnir i chi ddarparu datganiad (400-600 o eiriau) i ategu eich cais i ymuno â Grŵp Cynghori. Gan ddefnyddio tystiolaeth briodol, esboniwch sut y gwnaethoch chi ennill y rhinweddau a'r profiad sy'n berthnasol i'r rolau hyn.

Byddai'n ddefnyddiol pe baech chi'n trefnu eich datganiad o amgylch y pedwar maes o briodoleddau a sgiliau a nodir yn y ddogfen manyleb y person:

1. **Hygrededd academaidd a phedagogaidd o fewn cymuned y pwnc**
2. **Profiad o brosiectau, grwpiau a/neu bwyllgorau**
3. **Dealltwriaeth o faterion ehangach sy'n effeithio ar y sector a chymunedau pwnc sy'n ymwneud â chyfiawnder cymdeithasol, cyflogadwyedd a thechnolegau sy'n dod i'r amlwg**
4. **Profiad o gynhyrchu adroddiadau/dogfennau polisi, gan gynnwys golygu ac ysgrifennu.**

| |
|---|
| |

# Monitro Cydraddoldeb ac Amrywioldeb

Rydym yn cydnabod manteision cadarnhaol cydraddoldeb, amrywioldeb a chynhwysiant. Ein nod yw bod yn wirioneddol gynrychioliadol o bob rhan o gymdeithas, ac i bawb deimlo eu bod yn cael eu parchu, yn rhydd i fod yn nhw eu hunain, waeth beth yw eu hunaniaeth neu eu cefndir, a'u bod yn gallu rhoi o'u gorau. Rydym yn gosod gwerth ar y gwahaniaethau y mae amrywiaeth o ran cefndir, profiadau, safbwyntiau a sgiliau yn eu cynnig ac yn annog ymgeiswyr cymwys yn gryf i wneud cais.
Ein nod yw sicrhau bod yr ymrwymiadau hyn, wedi'u hatgyfnerthu gan ein gwerthoedd, yn cael eu hymgorffori yn ein harferion gwaith o ddydd i ddydd gyda'n gweithwyr, ein cwsmeriaid a'n partneriaid. Mae hyn yn cynnwys dethol unigolion ar gyfer cyflogaeth, dyrchafiad, hyfforddiant neu gyfleoedd datblygu eraill.

**Monitro**
Mae'r Côd Arfer Statudol ar gyfer Cyflogaeth sy'n rhan o Ddeddf Cydraddoldeb 2010, a gyhoeddwyd gan y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol, yn argymell bod pob cyflogwr yn cynnal monitro ar gyfer cydraddoldeb. At y diben hwn, byddem yn ddiolchgar pe byddech yn cwblhau'r cwestiynau yn yr arolwg hwn. Bydd yr holl wybodaeth yn cael ei thrin yn gwbl gyfrinachol, ac ni fydd yn cael ei gweld gan gydweithwyr sy'n ymwneud yn uniongyrchol â'r broses recriwtio. Bydd y wybodaeth a ddarperir yn cael ei defnyddio i ddarparu ystadegau dienw at ddibenion monitro yn unig.
Diolch am eich cymorth.
Diogelu Data - Mae QAA yn trin data personol a gesglir ar gyfer adolygu cydraddoldeb, amrywioldeb a chynhwysiant wrth recriwtio, dethol a chyflogi o fewn ein sefydliad yn unol â'n polisi diogelu data. Gellir dod o hyd i wybodaeth am sut mae eich data'n cael ei ddefnyddio a'r sail ar gyfer ei brosesu yn ein hysbysiad preifatrwydd.

Nodwch y categori sy'n cynnwys eich oedran presennol mewn blynyddoedd.

| | |
|---|---|
| 18-24 | |
| 25-34 | |
| 35-44 | |
| 45-54 | |
| 54-65 | |
| 65+ | |
| Byddai'n well gen i beidio â dweud | |

Beth yw eich rhywedd?

| | |
|---|---|
| Benyw | |
| Gwryw | |
| Trawsryweddol | |
| Anneuaidd | |
| Byddai'n well gen i beidio â dweud | |
| Arall | |

Os dewiswch chi Arall, rhowch fanylion:

| |
|---|
| |

Beth yw eich statws priodasol?

| | |
|---|---|
| Sengal | |
| Perthynas | |
| Priod/Partneriaeth sifil | |
| Hoffi ddim dweud | |
| Arall | |

## Anabledd

Yn y Deyrnas Unedig, mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn diffinio person anabl yn gyffredinol fel rhywun sydd â nam meddyliol neu gorfforol sydd ag effaith andwyol sylweddol a hirdymor ar allu'r person i gyflawni gweithgareddau arferol o ddydd i ddydd. A ydych chi'n ystyried bod gennych chi anabledd yn ôl y diffiniad yn y Ddeddf Cydraddoldeb?

| | |
|---|---|
| Ydw | |
| Nac ydw | |

A yw eich gweithgareddau o ddydd i ddydd yn gyfyngedig oherwydd problem iechyd neu anabledd sydd wedi para, neu y disgwylir iddo bara, am o leiaf 12 mis?

| | |
|---|---|
| Ydyn | |
| Nac ydyn | |

## Hil ac ethnigrwydd

Beth yw eich tarddiad ethnig?

| | |
|---|---|
| Gwyn | |
| Cymysg neu Luosog | |
| Asiaidd, Asiaidd Brydeinig, Asiaidd Saesnig, Asiaidd Albanaidd neu Asiaidd Gymreig | |
| Du, Du Prydeinig, Du Seisnig, Du Albanaidd neu Ddu Gymreig | |
| Byddai'n well gen i beidio â dweud | |
| Arall | |

Os dewiswch chi Arall, rhowch fanylion:

| |
|---|
| |

Dewiswch o'r rhestr isod os gwelwch yn dda

| | |
|---|---|
| Prydeinig | |
| Albanaidd | |
| Cymreig | |
| Gwyddelig | |

| | |
|---|---|
| Byddai'n well gen i beidio â dweud | |
| Arall | |

Os dewiswch chi Arall, rhowch fanylion:

| |
|---|
| |

## Ffydd a Chrefydd

| | |
|---|---|
| Dim crefydd na chred | |
| Bwdhaidd | |
| Cristnogol | |
| Hindŵ | |
| Iddewig | |
| Mwslimaidd | |
| Sikh | |
| Unrhyw grefydd arall | |
| Byddai'n well gen i beidio â dweud | |

## Cyfeiriadedd Rhywiol

Beth yw eich cyfeiriadedd rhywiol?

| | |
|---|---|
| Deurywiol | |
| Hoyw/lesbiaidd | |
| Heterorywiol/syth | |
| Unrhyw rywioldeb arall | |
| Byddai'n well gen i beidio â dweud | |

Os dewiswch chi Arall, rhowch fanylion:

| |
|---|
| |

© Asiantaeth Sicrhau Ansawdd ar gyfer Addysg Uwch 2025
Rhifau elusen gofrestredig 1062746 ac SC037786
www.qaa.ac.uk